# Pecyn Cyhoeddus

Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa,
Aberaeron, Ceredigion SA46 0PA
ceredigion.gov.uk

14/03/24

Dana Jones

**Annwyl Syr / Fadam**

**Ysgrifennaf i'ch hysbysu y cynhelir Cyfarfod o Pwyllgor Trwyddedu yn Siambr y Cyngor - Penmorfa/Hybrid, Dydd Iau, 21 Mawrth 2024 am 2.00 pm i drafod y materion canlynol:**

**1. Ymddiheuriadau**

**2. Datgelu buddianau personol / buddiannau sy'n rhagfarnu**

**3. Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Trwyddedu a gynhaliwyd ar 05 Hydref 2023 ac ystyried unrhyw faterion sy'n codi o'r Cofnodion hynny (Tudalennau 3 - 4)**

**4. Diweddariad Cyffredinol (Tudalennau 5 - 10)**

**Atgoffir yr Aelodau y dylent lofnodi'r Gofrestr Bresenoldeb**

**Darperir Gwasanaeth Cyfieithu ar y Pryd yn y cyfarfod hwn ac mae croeso i'r sawl a fydd yn bresennol ddefnyddio'r Gymraeg neu'r Saesneg yn y cyfarfod.**

**Yn gywir**

**Miss Lowri Edwards**
**Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd**

**At: Gadeirydd ac Aelodau Pwyllgor Trwyddedu**
**Weddill Aelodau'r Cyngor er gwybodaeth yn unig.**

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

Eitem Agenda 3

**Cofnodion Cyfarfod y PWYLLGOR TRWYDDEDU a gynhaliwyd ar ffurf hybrid yn Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron ac o bell drwy fideogynadleddа ddydd Iau, 5 Hydref 2023**

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd Paul Hinge (Cadeirydd), y Cynghorwyr Amanda Edwards, Endaf Edwards, Eryl Evans, Keith Evans, Gwyn James, Ann Bowen Morgan a John Roberts

**Hefyd yn bresennol:** Y Cynghorydd Gareth Lloyd

**Swyddogion yn bresennol**: Mrs Carwen Evans, Rheolwr Corfforaethol - Diogelu'r Cyhoedd, Polisi a Pherfformiad; Miss Anne-Louise Davies, Rheolwr Safonau Masnach a Thrwyddedu; Mr Gareth Rees, Uwch Swyddog Trwyddedu; Ms Nia Jones, Rheolwr Corfforaethol – Gwasanaethau Democrataidd a Mrs Dana Jones, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd a Safonau

(9:30am-10:05am)

1 **Cyflwyniad**

Croesawodd y Cadeirydd yr holl Aelodau i'r cyfarfod.

**Ymddiheuriadau**

Ymddiheurodd y Cynghorwyr Wyn Evans a Caryl Roberts am na fedrent ddod i'r cyfarfod.

2 **Datgelu Buddiannau Personol/Buddiannau sy'n Rhagfarnu**

Dim.

3 **Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Trwyddedu a gynhaliwyd ar 16 Mawrth 2023 ac ystyried unrhyw faterion sy'n codi o'r Cofnodion hynny**

PENDERFYNWYD cadarnhau bod cofnodion cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 16 Mawrth 2023 yn gywir.

**Materion yn codi**

Dim

4 **Diweddariad Cyffredinol**

Ystyriwyd yr Adroddiad ynghylch y Diweddariad Cyffredinol. Cyflwynwyd yr adroddiad er mwyn adolygu a thrafod y gwaith o weithredu Deddf Trwyddedu 2003 a'r cynnydd a wneir o ran y ddeddf, ynghyd ag unrhyw faterion cysylltiedig sy'n codi o gyfrifoldebau'r Pwyllgor penodol hwn. Roedd y materion hyn yn cynnwys Deddf Gamblo 2005.

Rhoddwyd y diweddariad canlynol:-

- **Rhan A: Deddf Trwyddedu 2003 – Materion Cysylltiedig**

  Ceisiadau lle'r oedd gwrthwynebiad (Adolygiadau/Apeliadau)

Cyfarfodydd y Grŵp Cynghori ar Ddiogelwch Digwyddiadau (ESAG)

- ‘Big Tribute Festival’, Aberystwyth 25 – 27 Awst 2023
- Gŵyl Tân yn y Mynydd, Abermagwr, Aberystwyth: 1 – 5 Mehefin 2023

Canllawiau Diwygiedig – Adran 182 (Deddf Trwyddedu 2003)

- **Rhan B: Deddf Gamblo 2005 – Materion Cysylltiedig**
    - Papur Gwyn – Adolygu'r Ddeddf Gamblo

Yn dilyn cwestiynau o'r llawr am gynnwys yr adroddiad, CYTUNWYD:-
(i) i nodi'r adroddiad er gwybodaeth; ac
(ii) y dylai'r holl ymatebion i bapurau ymgynghori gael eu cyflwyno gerbron y Pwyllgor fel y gallai'r Aelodau eu hystyried.

**Cadarnhawyd yng Nghyfarfod y Pwyllgor Trwyddedu a gynhaliwyd ar**

**Cadeirydd:**________________

**Dyddiad:**__________________

# CYNGOR SIR CEREDIGION

**Adroddiad i'r:** Pwyllgor Trwyddedu (Pwyllgor Statudol)

**Dyddiad y cyfarfod:** 21 Mawrth 2024

**Teitl:** Diweddariad Cyffredinol

**Pwrpas yr adroddiad:** Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am faterion perthnasol, yn ymwneud â Deddf Trwyddedu 2003 a/neu Deddf Gamblo 2005.

**Cefndir**

Bydd yr Aelodau'n ymwybodol bod y cyfarfod hwn wedi'i gynnull i adolygu a thrafod gweithrediad a chynnydd Deddf Trwyddedu 2003, ynghyd ag unrhyw faterion ategol sy'n codi o'r cyfrifoldebau y mae'r Pwyllgor penodol hwn yn gyfrifol amdanynt. Mae materion ategol o'r fath yn cynnwys Deddf Hapchwarae 2005.

**Ceisiadau lle'r oed gwrthwynebiad (Adolygiadau/Apeliadau)**

Ers y Pwyllgor Trwyddedu diwethaf, mae'r Tîm Trwyddedu wedi trefnu 1 gwrandawiad Is-bwyllgor i benderfynu ar gais sy'n ymwneud â:

1. Yr Academi, Stryd Fawr, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1DE - Cais am drwydded safle newydd. Deddf Trwyddedu A17 2003.

Manylion y cais sydd ynghlwm yn Atodiad A.

**Ymgynghoriad - Ymestyn oriau Trwyddedu ar gyfer gemau Pêl-droed UEFA 2024.**

Ar 27 Tachwedd 2023 cynhaliodd llywodraeth y DU ymgynghoriad ynghylch a ddylid llacio oriau trwyddedu yn genedlaethol ar gyfer rhai gemau ym Mhencampwriaethau Pêl-droed Ewropeaidd UEFA 2024 (Euro 24), sy'n cael eu cynnal yn yr Almaen.

Y cynnig oedd ymestyn oriau trwyddedu os bydd tîm pêl-droed cenedlaethol dynion Lloegr (Lloegr) a/neu dîm pêl-droed cenedlaethol dynion Cymru (Cymru) a/neu dîm pêl-droed cenedlaethol dynion yr Alban (Yr Alban) yn llwyddo i gyrraedd rownd gynderfynol Euro 2024 ac os bydd un o'r rhain yn cyrraedd rownd derfynol y twrnamaint hwnnw. Cynigiodd y llywodraeth i wneud gorchymyn oriau trwyddedu o dan adran 172 o Ddeddf Trwyddedu 2003 a fyddai'n ymestyn oriau agor yn amodol ar ddyddiau'r rownd gynderfynol (9 a/neu 10 Gorffennaf) ac y rownd derfynol (14 Gorffennaf) fel y byddent yn dod i ben am 1am (yn gynnar yn y bore ar ôl i'r gemau ddigwydd) yn hytrach nag 11pm ar ddiwrnod y gemau ar gyfer gwerthu alcohol i'w yfed ar y safle.

Daeth yr ymgynghoriad i ben ar 19 Chwefror 2024. Ar hyn o bryd mae tîm Lloegr a'r Alban wedi cymhwyso a byddai angen i Gymru guro'r Ffindir mewn rownd gynderfynol ail gyfle ar 21 Mawrth 2024, cyn herio enillydd gêm Gwlad Pwyl v Estonia (sy'n chwarae yn y rownd gyn-derfynol gymwys arall).

## Canllawiau Adran 182 wedi'u diwygio

**Canllawiau Statudol – Sbeicio Diod**
Ym mis Rhagfyr 2023, cyhoeddodd y Swyddfa Gartref ganllawiau diwygiedig A.182 o dan Ddeddf Trwyddedu 2003. Mae'r canllawiau newydd yn disodli'r canllawiau blaenorol, a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2022.

**Sbeicio Diod**
Byddai'r amcan i droseddu o dan Ddeddf Trwyddedu 2003 yn cynnwys cymryd camau i atal achosion o sbeicio a fyddai fel arfer yn cael eu herlyn o dan adran 23 a 24 o Ddeddf Troseddau yn erbyn Person 1861, ac adran 61 o Ddeddf Troseddau Rhywiol 2003.

Mae'r enghreifftiau canlynol o fewn yr ystod o ymddygiadau a fyddai'n cael eu hystyried yn sbeicio. Nid yw'r rhestr hon yn un gynhwysfawr:

- Rhoi alcohol yn niod rhywun heb yn wybod iddynt ac heb eu caniatâd
- Rhoi presgripsiwn neu gyffuriau anghyfreithlon mewn diod alcoholig neu ddi-alcohol heb yn wybod iddynt
- Rhoi pigiad i berson arall â phresgripsiwn neu gyffuriau anghyfreithlon heb yn wybod iddynt ac heb eu caniatâd
- Rhoi presgripsiwn neu gyffuriau anghyfreithlon i mewn i fwyd rhywun arall heb yn wybod iddynt ac heb eu caniatâd
- Rhoi presgripsiwn neu gyffuriau anghyfreithlon mewn sigarét neu fêp rhywun arall heb yn wybod iddynt ac heb eu caniatâd.

<u>Cymesuredd</u>
Mae Deddf 2003 yn ei gwneud yn ofynnol i amodau trwyddedu gael eu teilwra i faint, math, lleoliad a nodweddion a gweithgareddau sy'n digwydd yn y lleoliad dan sylw. Dylid penderfynu ar yr amodau fesul achos a dylid osgoi amodau safonol sy'n anwybyddu'r agweddau unigol hyn. Er enghraifft, ni ddylid defnyddio amodau i weithredu polisi cyffredinol mewn lle penodol fel defnyddio teledu cylch cyfyng, llestri yfed polycarbonad neu sganwyr hunaniaeth lle na fyddent yn briodol i'r safle penodol. Gallai amodau a ystyrir yn briodol ar gyfer atal gweithio anghyfreithlon mewn mangreoedd sydd wedi'u trwyddedu i werthu alcohol neu luniaeth hwyr y nos gynnwys ei gwneud yn ofynnol i ddeiliad trwydded safle gynnal gwiriadau hawl i weithio ar yr holl staff a gyflogir yn y safle trwyddedig neu fynnu bod tystiolaeth o wiriad hawl i weithio, naill ai'n gorfforol neu'n ddigidol (e.e. copi o unrhyw ddogfen a wiriwyd neu gopi clir o'r gwiriad hawl i weithio ar-lein) yn cael ei gadw ym mhob eiddo trwyddedig.

Efallai y bydd awdurdodau trwyddedu hefyd yn dymuno ystyried gosod amodau ychwanegol ar drwyddedau i ddiogelu cwsmeriaid rhag sbeicio, os bernir eu bod yn briodol ac yn gymesur ar gyfer lleoliad penodol lle mae tystiolaeth i gyfiawnhau camau o'r fath (gellir dod o hyd i ddiffiniad o sbeicio ym mharagraff 2.7). Dylai awdurdodau trwyddedu ac awdurdodau cyfrifol eraill fod yn ymwybodol o'r costau anuniongyrchol a all godi oherwydd amodau. Gallai'r rhain fod yn rhwystr i gynnal digwyddiadau sy'n cael eu gwerthfawrogi gan y gymuned neu ar gyfer codi arian at achosion da a phwysig. Felly, dylai awdurdodau trwyddedu trwy osod unrhyw amodau sicrhau taw dim ond y rhai sy'n briodol ar gyfer hyrwyddo'r amcanion trwyddedu hynny a ddylai gael eu gosod.

Ym mis Awst 2023 gwnaed mân newidiadau i ddogfen ganllaw Adran 182,

Daeth yr hawddfreintiau rheoliadol sy'n ymwneud â thrwyddedu alcohol yn Neddf Busnes a Chynllunio 2020 i ben ar 30 Medi 2023 (ar drwyddedau gwerthu) a 31 Rhagfyr (hysbysiadau digwyddiad dros dro) ac ni fyddant yn cael eu hymestyn. Mae'r penderfyniad i ganiatáu i'r mesurau dros dro hyn ddod i ben yn ddiweddarach eleni yn dilyn cyfnod o ymgynghori cyhoeddus. Y bwriad yw bod y newid hwn mewn dull gweithredu yn taro'r cydbwysedd cywir rhwng cefnogi busnesau tra'n gwrando ac ymateb i bryderon y rhai yr effeithir arnynt gan gyfreithiau trwyddedu. Mae hyn wedi arwain at welliant i baragraff 8.65 fel y gall awdurdodau trwyddedu ystyried amrywiad ar gyfer gwerthu oddi ar y safle os nad oes unrhyw effeithiau andwyol ar yr amcanion trwyddedu.

| | |
|---|---|
| **Argymhelliad(au):** | I’r Aelodau dderbyn yr adroddiad hwn er gwybodaeth. |
| **Rheswm dros argymhelliad** | Cynghori'r Aelodau etholedig o weithgarwch a gyflawnwyd gan yr Adran Drwyddedu ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor a gwybodaeth berthnasol arall. |
| **Fframwaith Polisi:** | Mae'r swyddogaethau statudol a ddarperir gan y Tîm Trwyddedu yn elfen sylfaenol o fframwaith polisi Gwarchod y Cyhoedd. |
| **Blaenoriaethau Corfforaethol** | Hybu’r Economi, Cefnogi Busnesau a Galluogi Cyflogaeth |
| **Goblygiadau cyllid a chaffael:** | O fewn y gyllideb |
| **Ardal Gwasanaeth** | Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd |
| **Pwerau Statudol:** | Deddf Trwyddedu 2003, Deddf Hapchwarae 2005 ac unrhyw Reoliadau a wneir o dan y Deddfau. |
| **Papurau Cefndir** | Dim |
| **Swyddog Arweiniol Corfforaethol:** | Alun Williams (Polisi, Perfformiad a Gwarchod y Cyhoedd) |
| **Swyddog Adrodd:** | Anne-Louise Davies (Rheolwr Safonau Masnach a Thrwyddedu) a Gareth Rees (Uwch Swyddog Trwyddedu) |
| **Dyddiad:** | 1 Mawrth 2024 |

**Atodiadau:** A: Crynodeb o wrandawiadau Deddf Trwyddedu 2003

**Atodiad A: Crynodeb o Wrandawiadau Deddf Trwyddedu 2003**

| |
|---|
| **Achos 1:**<br>**Yr Academi, Stryd Fawr, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1DE** |
| **Dyddiad Adolygiad: 10 Hydref 2023** |
| **Rheswm dros y Gwrandawiad:** Ystyried cais am drwydded safle newydd o dan Adran 17 o Ddeddf Trwyddedu 2003. Ar 25 Awst 2023, derbyniwyd Cais am Drwydded Safle Newydd Adran 17 gan ddeiliad y drwydded ar gyfer yr Academi, Stryd Fawr, Aberystwyth, SY23 1DE i:<br>1. Caniatáu gwerthu a chyflenwi alcohol, perfformio dramâu, dangos ffilmiau, perfformio cerddoriaeth fyw ac wedi'i recordio, perfformiad dawns neu unrhyw beth tebyg ar ddydd Sul i ddydd Iau rhwng 11:00 a 3am y diwrnod canlynol ac ar ddydd Gwener a dydd Sadwrn rhwng 11:00 a 4am y diwrnod canlynol.<br>2. Caniatáu darparu lluniaeth hwyr y nos ar ddydd Sul i ddydd Iau rhwng 23:00 o'r gloch i 03:00 ac ar ddydd Gwener a dydd Sadwrn rhwng 23:00 i 04:00 y diwrnod canlynol.<br>3. Caniatáu i'r safle fod ar agor i'r cyhoedd am 30 munud ar ddiwedd gweithgareddau sydd wedi'u trwyddedu.<br>4. Caniatáu oriau estynedig ar gyfer gweithgareddau sydd wedi'u trwyddedu ar ddiwrnodau nodedig sef:<br>• Awr ychwanegol ar Noswyl Nadolig a dydd Sul cyn pob Gŵyl Banc Ddydd Llun<br>• Nos Galan o ddiwedd oriau a ganiateir ar Nos Galan tan i'r oriau a ganiateir ddechrau ar Ddydd Calan<br>• Ar y dyddiau masnachu y mae'r clociau'n symud ymlaen (h.y. dechrau Amser yr Haf) gall oriau a ganiateir Gael eu hymestyn am awr ychwanegol. |
| **Ymgynghoriad:** Daeth y dyddiad cau ar gyfer derbyn sylwadau i ben am hanner nos ar 22 Medi 2023.<br>Yn ystod y cyfnod ymgynghori 28 diwrnod, derbyniwyd un cynrychiolaeth gan Awdurdod cyfrifol sef Diogelu'r Amgylchedd, a derbyniwyd 40 o sylwadau gan bobl eraill yn ystod y cyfnod ymgynghori 28 diwrnod a derbyniwyd 3 arall y tu hwnt i'r cyfnod ymgynghori. |
| **Manylion Cyfryngu:** Nodir yn Neddf Trwyddedu 2003, os derbynnir unrhyw sylwadau, yna mae'n ofynnol i'r Awdurdod Trwyddedu gynnal 'Gwrandawiad' i ystyried y cais ac unrhyw sylwadau a dderbynnir. Fodd bynnag, bydd yr Awdurdod Trwyddedu bob amser yn ceisio cyfryngu yn y lle cyntaf. Mae cyfryngu yn anffurfiol ac yn cael ei gynnal drwy'r awdurdod trwyddedu, i liniaru unrhyw bryderon a godwyd yn y gynrychiolaeth (gwneir hyn fel arfer drwy ddiwygiadau i weithgareddau; oriau gweithredu neu amodau). Oherwydd nifer y Sylwadau / gwrthwynebiadau a dderbyniwyd roedd yn anymarferol ceisio cyfryngu ond yn hytrach i fwrw ymlaen i wrandawiad.<br>Anfonwyd copi o'r gynrychiolaeth at yr ymgeisydd i'w ystyried. |
| **Penderfyniad/Canlyniad y gwrandawiad:**<br>Gwrthododd y Panel **y cais** am y rhesymau canlynol:- |

Cytunodd y Panel yn unfrydol y byddai caniatáu'r drwydded hon ddim yn hyrwyddo amcan trwyddedu i atal niwsans cyhoeddus a chytunwyd â'r sylwadau a wnaed gan Iechyd yr Amgylchedd (Swyddog Gwarchod y Cyhoedd) y gallai'r estyniad i'r drwydded, pe bai'n cael ei ganiatáu, gyfrannu at niwsans cyhoeddus oherwydd y ffaith bod lefelau sŵn y gerddoriaeth sy'n cael ei chwarae o'r safle wedi creu niwsans ar sawl achlysur.

Roedd gan y Panel gonsyrn ei bod yn ymddangos bod yr Ymgeisydd wedi torri'r drwydded bresennol hefyd trwy hysbysebu ar Facebook bod y safle ar agor tan 4am ar ddyddiad nad oedd ganddo ganiatâd ar ei gyfer.

Dywedodd y Panel y byddai angen iddynt weld cynllun rheoli sŵn proffesiynol a chadarn ar waith cyn y byddent yn gallu rhoi trwydded sy'n ymestyn yr oriau presennol, a gallai'r ymgeisydd wneud cais eto yn y dyfodol unwaith y bydd y materion sŵn wedi cael sylw.
Byddai'n rhaid i'r cynllun rheoli sŵn gynnwys:

- Manylion pa waith sydd wedi'i wneud i'r ffenestri, y waliau a'r nenfwd i leihau sŵn sy'n dianc o'r safle;
- Manylion y system gerddoriaeth yn y safle a sut y bydd y lefel sain yn cael ei rheoli'n effeithiol fel na ellir ei chwarae'n uwch na'r lefel desibel a ganiateir;
- Byddai angen cymryd a chofnodi lefelau desibel yn y cynllun yn ystod yr oriau mae ar agor; a
- Yr ardal allanol i fod ar gau i bawb, gan gynnwys ysmygwyr, am 8pm
- Byddai angen i'r Ymgeisydd weithio gydag Uwch Swyddog Iechyd yr Amgylchedd i sicrhau bod y cynllun inswleiddio a rheoli sŵn yn briodol ac yn effeithiol.
- Gwneud cais am gyngor gan y Swyddogion Trwyddedu a fyddai'n gallu helpu i wneud cais arall.

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol